

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
15 Mai, 2018

Presennol: Tyly Roberts (Cadeirydd), Geraint Roberts (Is Gadeirydd), Gwyn Roberts, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd, Tyly Roberts, a derbyniwyd ymddiheuriadau Eleri Jones, Huw Roberts ac Emyr Jones. Llongyfarchwyd y Cadeirydd ar y gamp o redeg dau farathon o fewn un mis, a llongyfarchwyd Emyr Jones ar ddod yn daid unwaith yn rhagor.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 26/2/18.
5. Materion yn codi o gyfarfod 26/2/18
 - a. Cytunwyd gyda'r rhesymau dros ohirio cyfarfod Ebrill.
 - b. Derbyniwyd gwybodaeth fod sgaffaldiau yn cael eu codi ar gyfer diogelu clochdy Eglwys Santes Gwawr.
 - c. Adroddwyd y bu'r hyfforddiant ar 19/4/18 ar ddefnyddio'r di-ffib yn llwyddiannus iawn gyda 30 o bobl Rhosygwaliau a Llangywer yn bresennol. Diolchodd y Cadeirydd i berchennog maes carafanau Pantyrnonen am gasglu arian tuag at gynnal y peiriannau trwy law Pwyllgor y Neuadd, ac i Linda Morris a'r tîm am ddarparu lluniaeth ysgafn. Dywedodd ei fod yn falch iawn fod Cyngor Cymuned Llangywer wedi gallu prynu'r ciosg yn Rhosygwaliau ac yn Llangywer a darparu'r peiriannau achub bywyd ynddynt.
 - d. Trafodwyd amseriad cynnal a chadw'r fynwent a chytunwyd fod hyn yn dibynnu ar y tymor tyfu ac ar y tywydd.
6. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** dywedodd Alan Jones Evans ei fod yn falch fod y goleuadau stryd yn Llangywer wedi cael eu newid i rhai LED, sy'n llai costus a mwy dibynnol. Mae cloeon newydd wedi cael eu gosod ar y gorlan biniau ac fe fydd yn holi am arwyddion "Dim Parcio" i'w gosod ar y drysau. Adroddodd ei fod wedi trafod gyda'r deilydd portffolio'r broblem o rai gangiau yn creu llanast wrth gasglu sbwriel; mae cytundebau'r gweithwyr o dan drafodaeth ar hyn o bryd gyda'r bwriad y bydd llai o ruthr wrth iddynt wneud eu gwaith. Rhoddodd wybod am y sefyllfa ddiweddaraf am y Clybiau Ieuentid a'r Mudiad Ffermwyr Ifanc. Dywedodd ei fod yn parhau i geisio ymestyn y gefnogaeth i'r Ffermwyr Ifanc a bod trafodaethau yn parhau ar y mater yng Nghyngor Gwynedd.
7. **Materion ariannol:** Derbyniwyd gwybodaeth lawn am dderbyniadau a thaliadau diweddar ac am y cyfrifon ar gyfer 2017-18.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth BDO am archwilio'r cyfrifon. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2017-18 i'w chyflwyno i'r Archwilydd

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)(Clerc)

mewnol, gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Cymuned Llangywer a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/18.

8. **Materion lleol:** addawodd y Cyngorydd Sir i roi pwysau ar yr Adran Priffyrdd i drwsio Pont Ceunant yn ymyl Pandy. Dywedodd hefyd y byddai'n dwyn sylw'r Adran at yr angen i wella cyflwr y grid anifeiliaid ar y ffordd fyny'r Berwyn - y grid cyntaf i'w gosod ym Mhrydain, mae'n debyg.

9. **Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Cymeradwywyd ceisiadau

- i. NP5/70/156 Codi mast latis a chabannau offer, Bwlch yr Hwch, Cwm Hirnant
- ii. Offer electroneg BT ar dir yn ymyl Encil y Coed, Llangywer
- iii. NP5/70/58G Cais ôl weithredol i gadw 2 bwyler biomas, Tŷ Isaf, Rhosygwaliau
- iv. NP5/70/45 Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 25/11/1992 mewn perthynas â Maes y Dderwen, Rhosygwaliau

Cyngor Gwynedd :

- i. Nodwyd derbyn Memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar ffioedd claddu plant; mae hyn eisoes yn bolisi gan Gyngor Cymuned Llangywer ers sawl blwyddyn
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod ar gynllun wi-fi yn y gymuned.
- iii. Derbyniwyd Rhaglen waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer Mai 2018

Eraill:

- i. Nodwyd gohebiaeth gan Ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus.
- ii. Nodwyd cais gan Banel Adolygu Cyngorau Cymuned a Thref.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am y ddeddf gwarchod data.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Gorffennaf 2il, 2018

Amser gorffen: 9.15pm

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)(Clerc)